Cyngor Cymuned Ganllwyd

Ionawr 14eg 2026

**Presennol**

Cyng D.Morris, G.Jones,S.Roberts,C.Dixon,D.Griffiths.

**Ymddiheuriadau**

Cyng S.Jones.

**Cofnodion Rhagfyr 2025**.

Cynnigwyd yn gywir gan S.Roberts ac eilwyd gan D.Morris.

**Datagan diddordeb mewn un rhyw fater a drafodir.**

Dim

**Materion yn codi.**

Batri diffibrilydd- Mae Cyng Jones wedi trefnu newid y batris a padiau y ddau diffibrilydd yn ardal y Ganllwyd.

**Toiled cyhoeddus.**

Mae'r cyngor wedi derbyn e-bost gan Cyngor Gwynedd i hysbysu eu bod yn bwriadu codi cost ein cyfraniad tuag at gynnal y toiliadau cyhoeddus o £250 y flwyddyn i £340 y flwyddyn.

Mae'r cyngor wedi derbyn mwy o fanylion gan Cyngor Ganllwyd ynglyn a sut penderfynnwyd codi'r gost-sef dros 30%.

Wedi trafod y manylion penderfynodd y cynghorwyr i gynnig £300 y flwyddyn fel eu cyfraniad blynyddol.

Bydd y clerc yn cysylltu a Cyngor Gwynedd hefo'r cynnig.

**Cynghorwr Sir.**

Mae'r cynghorwr wedi darganfod fod biniau melyn dal halen yn costio tua £450 i'w ddisodli os byddai angen ei newid. Mae Cynghorydd Griffiths o'r farn y dylid ymdrin â'r costau hyn gan Gyngor Gwynedd.

Bydd Cynghorydd Griffiths yn trafod y mater hwn gyda Chyngor Gwynedd ac yn adrodd yn ôl i'r cyngor cymuned.

Ysgol Ganllwyd- Ni fydd Cyngor Gwynedd yn cyflwyno cynnig i brynu'r safle ysgol er mwyn datblygu'r safle ar gyfer tai.

Mae Cyngor Gwynedd o’r farn y byddai lleoliad yr ysgol yn rhy beryglus ac anodd i wneud unrhyw ddatblygiadau.

Wrth dderbyn y wybodaeth hon, yr oedd y cynghorwyr o'r farn y dylai cynllun datblygu tai yn y Ganllwyd gael ei ganslo gan nad oedd unrhyw safleoedd yn yr ardal y gellid adeiladu tai arnynt.

Bydd y clerc yn cysylltu a Heledd Parri hefo’r wybodaeth yma.

**Caru Coed y Brenin.**

Dim datblygiadau na diweddariadau ers y cyfarfod cyngor diwethaf.

**Materion ariannol.**

Preaspt 2026-27.

| | |
|---|---|
| Yn y Banc 01/01/2026 | £2653.91 |
| Llai sieciau heb glirio | £3190.00 |
| Cyfanswm | - £637.09 |

Incwm arfaethedig am y flwyddyn:

| | |
|---|---|
| Precept | ???? |
| Ad-daliad cynnal llwybrau | £577 |
| Ad daliad TAW | £800 |
| Ad daliad grant | £2190 |

Cyfanswm (heb preasept) £ 2929.91

Amcangyfrif o wariant 2026/27

| | |
|---|---|
| Cynnal Llwybrau Cyhoeddus | £1080 |
| Llogi’r Neuadd | £200 |
| Cyflog Clerc | £1600 |
| Ysiwriant | £462 |
| Rhoddion | £600 |
| Toiled Ganllwyd | £320 |
| Archwilydd/cyfrifydd | £1000 |
| Un Llais Cymru | £38 |
| Mr Evans (cynnal a chadw) | £50 |
| (Eitemau amrywiol) | £700 |

Cyfanswm £6050

Gweddill (heb praesept) -£3120.09.

Wedi trafod y ffigurau uchod penderfynnwyd gwneud cais am £4000 am y flwyddyn ariannol 2026/27.

Cyson Banc Rhagfyr 2025

Yn y Banc ar ddechrau’r Mis: £1314.71

Derbyniwyd:

| | |
|---|---|
| Ad daliad grant | £1120.00 |
| Menthyg M.Owen | £320.00 |

Taliadau:

Cyflog/Paye £100.00

Treuliau banc £0.80

Yn y Banc diwedd mis £2653.91

Mae aelodau’r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg arianol y cyngor.

Taliadau.

Llogi’r neuadd £165.00

Ad dalu M.Owen £320.00

Awdit mewnol 2025/26- fydd y cyngor yn gwneud ymholiadau cyn pendefynnu pwy fydd yn gwneud y gwaith awdit.

**Cynghorwr/Clerc Newydd.**

Bydd y swyddi uchod yn cael eu hysbysebu yn yr wythnos nesaf.

**Materion Cymunedol.**

Bydd Liz Saville-Roberts yn cynnal digwyddiad i gyn filwyr ar 7fed o Chwerfor yn Porthi Dref,Caernarfon. Croeso i aelod o’r cyngor fynychu.

Mae Jason Beech wedi ei gyflogi yn Swyddog Cefnogi Cymunedau ar gyfer De Meirioydd.

Bydd Mr Beech yn cefnogi grwpiau cymunedol yr ardal.